

HANES LLWYBR RHYMNI

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth am Hanes Llwybr Rhymni yng Nghaerdydd.

Os ewch am dro ar hyd yr Afon, byddwch yn dal i weld llawer o adeiladau a nodweddion diddorol sy'n rhoi cipolwg i chi o orffennol Caerdydd.

Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau rhestredig a chanddynt hanesion lliwgar ac eglwys a chanddi gysylltiadau â'r bumed ganrif. **Cliciwch ar yr eiconau am ragor o wybodaeth...**

Am ragor o wybodaeth ynglyn â chyfleoedd eraill i fwynhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 73719 / 73249

E-bost: cefngwlad@caerdydd.gov.uk


Gwefannau: www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth


www.awyragoredcaerdydd.com

ALLWEDD

- Llwybr Rhymni
- Llwybr arfaethedig
- Tafarn Cefn Mabli
- Tafarn yr Unicorn
- Eglwys Sant Edern
- Coleg Sant Ioan
- Tafarn y Bluebell a'r Coach House
- Cofeb i Joseph Benjamin Hemingway
- Llaneirwg
- Eglwys Llaneirwg
- Kingdom Hall of Jehovah's Witnesses
- Tafarndy Neuadd Llanrhymni
- Tŷ Quarry Hill
- Cofeb Ryfel Llaneirwg
- Afon Rhymni
- Eglwys Awstin Sant
- Crochendy Rhymni
- Morglawdd Creiriol ar Lanfa Fawr Rhymni



Dim Delweddau
Map



Tafarn Cefn Mabli

Yn swatio yng nghefn gwlad rhwng Caerdydd a Chasnewydd, mae gan y dafarn wledig draddodiadol hon gwsmeriaid ffyddlon o bob cwr o Gymru. Daeth yr adeilad, sy'n dyddio yn ôl dros 450 mlynedd, yn dŷ tafarn yng nghanol y ddeunawfed ganrif a'r gred yw mai'r goeden dderw yn y maes parcio yw'r hynaf yn ne ddwyrain Cymru.

Mae [Tafarn Cefn Mabli](#) ar agor saith diwrnod yr wythnos ac yn gweini bwyd oer a phoeth a diod.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Tafarn yr Unicorn

Mae Tafarn yr Unicorn drws nesaf i Eglwys Sant Edern, ac mae rhannau ohoni'n dyddio'n ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Mae wedi'i rhestru'n adeilad gradd II gan ei bod yn cynnwys adeilad craidd cynnar sydd, ynghyd â'r eglwys, o werth hanesyddol. Disgrifiwyd y dafarn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel "hen dŷ to gwellt cysurus, gyda chegin-dafarn o'r math atyniadol, simnai fawr, sgiw dderw a hanerobau dan y trawstiau; a llandledi Cymraeg ei hiaith". Erbyn hyn mae'r dafarn yn darparu bwyd a diod saith diwrnod yr wythnos nid nepell o Lwybr Rhymni.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Eglwys Sant Edern

Mae Eglwys Sant Edern yng nghanol Llanedern ac mae hi'n sefyll ar ganol mynwent lethrog ar siâp triongl yn fras. Mae'r eglwys ganoloesol hon, a adferwyd ym 1888, yn safle Cristnogol cynnar a sefydlwyd yn ôl y sôn gan Sant Edern. Cychwynnodd gymuned grefyddol ar lan yr Afon Rhymni yn y bumed ganrif a phan fu farw ym 522 cafodd ei gladdu, yn ôl y sôn, yn y fynwent. Mae'r eglwys wedi'i rhestru'n adeilad gradd II* yn sgil y ffaith mai eglwys fechan, ganoloesol ydyw sydd wedi cadw llawer o'i deunydd hanesyddol.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Coleg Sant Ioan

Cafodd yr adeilad hwn a restrir fel gradd II* ac sy'n sefyll ym Mhentref Llaneirwg ei adeiladu ym 1885-9 ar gyfer Richard Allen o Spillers gan gostio £15,000. Enw'r tŷ yn wreiddiol oedd Tŷ-to-Maen ac mae ar safle fferm a oedd yn cynnwys cyfres fawr o adeiladau ar fapiau OS c.1880. Wedyn, daeth Syr William Edgar Nicholls, rheolwr Spillers, yn berchen ar y plasty ac fe'i cyflwynodd ynghyd â'i ystâd er cof am Richard Allen i Ysbyty Brenhinol Caerdydd i'w ddefnyddio fel cartref gwella. Fe'i hagorwyd yn ffurfiol gan y Fonesig Nicholls ar 24 Ebrill 1926.

Adeiladwyd y plasty yn arddull oes y Tuduriaid/yr Adfywiad Gothig ac fe'i rhestrir yn adeilad gradd II* am ei fod yn cael ei ystyried yn bencampwaith gan bensaer Cymreig pwysig, yn arbennig oherwydd yr elfennau addurnol sydd yn ddo. Heddiw, mae llawer o'r cyfoeth y tu mewn wedi goroesi ac yn llawer o'r ystafelloedd ceir gwaith plastr cywrain, lleoedd Tân enfawr a gwaith coed a fowldiwyd yn drwm a'i staenio'n dywyll. Mae wedi bod yn gartref i St John's College, ysgol annibynnol i fechgyn a merched 3-18 oed, ers 1987.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Tafarn y Bluebell a'r Coach House

Mae'r ddwy dafarn hyn, yn ymyl Heol Casnewydd, yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Fe'u rhestrir yn adeiladau gradd II gan eu bod yn dafarndai pentref traddodiadol ar dramwyfa bwysig ac mewn lle amlwg.

Manteisiodd y ddwy dafarn grym dipyn yn sgil y ffaith nad oedd y Ddeddf Cau'r Tafarndai ar y Sul yng Nghymru yn cynnwys Sir Fynwy cyn 1921 a byddai llawer o drigolion Caerdydd yn ymweld â nhw ar y Sul.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Cofeb i Joseph Benjamin Hemingway

Adeiladodd Joseph Benjamin Hemingway dŷ Quarry Hill ym 1850 a bu farw yno ym 1856. Mae'r gofeb hon sydd wedi'i rhestru'n radd II yn sefyll ar dir Eglwys Llaneirwg ac yn coffáu bywyd Benjamin Hemingway. Codwyd y gofeb ar ddiwedd y 1850au.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Llaneirwg

Dechreuodd Llaneirwg fel canolfan fasnachol fechan yn sir hanesyddol Mynwy, gan ddibynnu'n helaeth ar amaethyddiaeth cefn gwlad, ffermio a theithio.

Ystyr Llan yw 'eglwys', ac Eurwg oedd enw brenin chwedlonol Gwent. Dywedir bod Eurwg wedi byw ar y bryn yn y lle hwn ar yr adeg pan fu'r Rhufeiniad ym Mhrydain a throdd yntau a'i bobl at y ffydd Gristnogol a chael eu bedyddio yn Afon Rhymni.

Wrth ddynodi'r ffin newydd hon cwmpaswyd y rhan fwyaf o'r adeiladau hynaf a gadael y stad o dai fwy diweddar i'r de. Ystyrir Pentref Llaneirwg yn ardal o ddiddordeb pensaerniol neu hanesyddol ac mae o fewn ardal gadwraeth.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Eglwys Llanelirwg

Mae craidd yr adeilad rhestredig gradd I hwn yn dyddio'n fras o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'r eglwys wedi'i rhestru am ei bod wedi cadw'r cyfan bron o'i deunydd canoloesol gyda chynllun anarferol ar yr ochr ddeheuol ac oddi mewn ceir bwa dwbl i'r gangell a'r corff.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Kingdom Hall of Jehovah's Witnesses

Adeiladwyd yr adeilad gradd II hwn sydd yn Llaneirwg yn wreiddiol fel Capel Annibynnol Soar c 1840. Y rheswm dros restru'r adeilad yw'r ffaith ei fod wedi'i gynnwys fel capel bach yng nghanol hen bentref Llaneirwg tua chanol cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Tafarndy Neuadd Llanrhymni

Mae'r plasty hwn o oes Elisabeth I, wrth ymyl Afon Rhymni, wedi'i restru'n adeilad gradd II* oherwydd ei bwysigrwydd i hanes De Ddwyrain Cymru. Cofnodwyd bod y plasty, a gafodd ei ailfodelu ym 1825, yn cynnwys lle Tân yn dyddio'n ôl i 1587, er nad yw'n bodoli bellach yn y ty.

Hyd yn ddiweddar, roedd Neuadd Llanrhymni yn blasty ar ystâd 700 erw, a thybiwyd mai mynachdy ydoedd a oedd yn eiddo i deulu'r Kemys o Gefn Mabli.

Ers hynny, mae llawer o bobl eraill wedi byw yn y plasty, gan gynnwys y Capten Harri Morgan a oedd yn Llyngesydd, yn breifatîr ac yn fôr leidr o Gymro a wnaeth enw iddo'i hun drwy ysbeilio trefedigaethau Sbaen yn bennaf. Yn ddiweddarach, tybir i Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn ein Llyw Olaf), sef y Tywysog olaf ar Gymru annibynnol, fyw yn y Neuadd. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg tyfodd chwedl am " ddarn hynafol o garreg wedi'i thrin yn cynnwys corff Llywelyn ein Llyw Olaf ac yntau wedi'i ddienyddio " Credir yn lleol mai ei ysbryd ef sy'n crwydro Neuadd Llanrhymni.

Mae Neuadd Llanrhymni wedi cael ei defnyddio fel Tafarn ers y 1950au.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap



Tŷ Quarry Hill

Cafodd yr adeilad rhestradig gradd II hwn yn Nhredelerch ei adeiladu ym 1850 gan Joseph Benjamin Hemingway a fu farw yn y tŷ ym 1856. Codwyd cofeb fawr er cof amdano ym mynwent Eglwys Llaneirwg. Difrodwyd y tŷ yn llwyr gan dâñ cyn cael ei adfer tua diwedd yr ugeinfed ganrif a'i droi yn gartref nysrio. Ni oroesodd yr un o nodweddion gwreiddiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a blynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif. Mae'r adeilad wedi'i restru'n radd II oherwydd ei fod yn dŷ urddasol bonheddwyr o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd yn dal i gadw ei gymeriad allanol.



Cofeb Ryfel Llaneirwg

Yn wreiddiol, adeiladwyd y gofeb ryfel hon sydd wedi'i rhestru'n radd II i goffáu'r rhai hynny o Llaneirwg a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychwanegwyd plac yn ddiweddarach i goffáu'r rhai a gollwyd yn yr Ail. Fe'i rhestrir am ei bod yn gofeb leol bwysig.



Afon Rhymni

Afon Rhymni yw'r ffin hanesyddol rhwng Sir Forgannwg a Sir Fynwy. Mae hi'n tarddu ar odre deheuol Bannau Brycheiniog cyn llifo'n gyflym drwy dref Tredegar Newydd tuag at Ystrad Mynach ac yn y diwedd yn llifo i'r Hafren i'r dwyrain o Gaerdydd.

Mae'r afon yn llifo dros 30 milltir, ac yn rhan o'r ardal yn Ne Cymru fu unwaith yn faes glo ac yn fan cynhyrchu haearn. Golygai hynny fod yr afon gynt yn llawn o luch du'r glo. Dros y deugain mlynedd diwethaf, yn dilyn cau'r pyllau, mae ansawdd y dŵr wedi gwella'n raddol ac mae Afon Rhymni bellach yn gynefin i lawer o fywyd gwylt.



Eglwys Awstin Sant

Adeiladwyd Eglwys Awstin Sant yn wreiddiol ym 1108 a'i hehangu yn ddiweddarach ym 1407. Ymddengys fod y fynwent fawr wedi cael ei chlirio yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan na cheir yno gerrig beddi cynharach na hyn. Mae'r adeilad wedi'i restru'n adeilad gradd II* am mai eglwys ganoloesol ydyw sydd yn cynnwys llawer o ddeunyddiau hanesyddol, gan gynnwys drws o ddiwedd cyfnod y Normaniaid. Mae'r brif fynedfa yn y gornel dde-ddwyreiniol drwy borth y fynwent sydd wedi'i deilsio â cherrig.



Blaenord

Nesaf

Prif Fap

Crochendy Rhymni

Ers y 1830au, mae Crochendy Rhymni wedi bod yn eiddo i saith cenhedlaeth o'r teulu Giles. Mae'n agos at yr afon a byddai'r clai ar gyfer y llestri yn cael ei gloddio'n wreiddiol o'r caeau gyferbyn. Mae'r Crochendy wedi bod yn llwyddiannus dros gannoedd o flynyddoedd ac mae'r cyfrifiadau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dangos bod nifer sylweddol o bobl yn cael eu cyflogi yno fel crochenwyr. Roedd y ffatri'n gwneud pethau i'r cartref megis piseri dŵr a llestri bara yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ddiweddarach cynhyrchwyd eitemau mwy addurnol ar gyfer y cartref Fictoraidd.

Mae'r Crochendy ar safle pwysig yn ymyl yr afon ac mae mapiau cynnar yn dangos cei sydd yn awgrymu safle masnachu; yn ôl y sôn defnyddiwyd y lle ar gyfer smyglo. Gellir gweld sylfeini tolldy o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr ardd ac yn y fan honno byddai pobl yn talu i groesi'r afon ar y bont gerllaw.

Mae'r adeilad wedi'i restru'n adeilad gradd II oherwydd ei arwyddocâd ym maes crochenwaith rhanbarthol, a diddordeb hanesyddol mawr y crochendy a'r safle.



Morglawdd Creiriol ar Lanfa Fawr Rhymni

Mae'r morglawdd creiriol ar Lanfa Fawr Rhymni yn fur o glai 560 metr o hyd sydd wedi'i leoli y tu ôl i'r morglawdd cyfoes. Gallai llawer o'r clawdd clai sydd wedi goroesi fod yn wreiddiol a cheir tystiolaeth ddogfennol sy'n awgrymu y cafodd y clawdd ei osod mor gynnar â 1591.

Daethpwyd o hyd i greiriau Rhufeinig a chanoloesol megis llestri yn y cylch ac mae'r rhain yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym Mharc Cathays.

Blaenord

Nesaf

Prif Fap

(h) Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru. I'w arddangos tan: 14/02/17

LLWYBR RHYMNI

Nod y daflen hon yw rhoi gwybodaeth am Hanes Llwybr Rhymni yng Nghaerdydd.

Os ewch am dro ar hyd yr Afon, byddwch yn dal i weld llawer o adeiladau a nodweddion diddorol sy'n rhoi cipolwg i chi o orffennol Caerdydd.

Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau rhesteddig a chanddynt hanesion lliwgar ac eglwys a chanddi gysylltiadau â'r bumed ganrif. **Cliciwch ar yr eiconau am ragor o wybodaeth...**

Am ragor o wybodaeth ynglyn â chyfleoedd eraill i fywnhau'r ardal o gefn gwlad sydd ar garreg eich drws, cysylltwch â Thîm Cefn Gwlad y Cyngor.

Ffôn: 029 2087 3186 / 73719 / 73249

E-bost: cefngwlad@caerdydd.gov.uk

Gweffannau: www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad

www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth

www.awyragoredcaerdydd.com

